## P-04-646  Canllawiau Anstatudol yng Nghymru ar Gyfer Awdurdodau lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

## Geiriad y deiseb

Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai canllawiau anstatudol newydd yn cael eu llunio ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref, yn dilyn ymgynghoriad â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.

Mae canllawiau drafft wedi'u cyhoeddi i ymgynghori arnynt ac nid ydynt yn adlewyrchu safbwyntiau cryf y teuluoedd hynny sy'n addysgu yn y cartref.Credwn fod y canllawiau hyn wedi'u hysgrifennu'n wael, eu bod yn gamarweiniol ac yn debygol o arwain at fethiant pellach yn y gydberthynas rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac awdurdodau lleol.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i dynnu'r canllawiau drafft yn eu hôl gan nad ydynt yn addas at y diben.

Yn hytrach, dylai awdurdodau lleol weithio tuag at ddangos eu dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n bodoli eisoes ynghylch addysg yn y cartref, a chydymffurfio â'r canllawiau cyfredol sydd wedi'u diffinio'n glir.

.

**Prif ddeisebydd:** Lucy Bear

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf:**

**Nifer y deisebwyr:** 2,140  llofnod ar lein